

*Patrwm cyflwyno o fis Mai i fis Hydref**Disgrifiad o'r modiwl*

Mae tystiolaeth ddigidol yn ymddangos ym mhob rhan o'n bywydau personol a busnes, fwy neu lai. Mae penderfyniadau cyfreithiol a busnes yn dibynnu ar gael data amserol am yr hyn y mae pobl wedi'i wneud mewn gwirionedd. Bydd y modiwl hwn yn helpu myfyrwyr i ddeall sut i gynnal ymchwiliadau er mwyn casglu, dadansoddi a chyflwyno tystiolaeth ddigidol yn gywir i gynulleidfaoedd busnes a chyfreithiol. Byddant hefyd yn dysgu sut i ddod o hyd i adnoddau er mwyn canfod a dadansoddi tystiolaeth ddigidol ar amrywiaeth o ddyfeisiadau, gan gynnwys ffonau symudol, a sut i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn technolegau, cyfreithiau a rheoliadau ym maes fforenseg ddigidol.

*Manyleb person*

Dylid darllen y fanyleb person ar gyfer y modiwl hwn ynghyd â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gwybodaeth am egwyddorion sylfaenol, fforenseg ddigidol yn y DU, a'r amgylchedd deddfwriaethol ar gyfer y maes
- profiad o atal a/neu ddadansoddi digwyddiadau diogelwch TG
- profiad o adnoddau meddalwedd a dulliau a ddefnyddir mewn ymchwiliadau fforenseg ddigidol
- profiad a fyddai'n eich helpu i gefnogi myfyrwyr sy'n ymgymryd â phrosiect ymchwil ar raddfa fach
- y gallu i helpu myfyrwyr i gyfathrebu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Nid oes angen i chi fod yn gyfarwydd â'r teclynnau meddalwedd penodol a ddefnyddir gan y modiwl.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad o ddiogelwch cyfrifiaduron, fforenseg neu ymateb i ddigwyddiadau mewn mwy nag un amgylchedd
- profiad o oruchwyllo neu weithredu fel tyst arbenigol mewn llys
- cymhwyster ôl-raddedig mewn maes cysylltiedig (neu aelodaeth broffesiynol neu broses diweddarau proffesiynol gyfatebol).

*Gwybodaeth ychwanegol*

Mae'r aseiniad olaf i'w farcio gan diwtor yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gynnal ymchwiliad i senario penodol ac ysgrifennu adroddiad, gan gynnwys eu nodiadau a gymerir ar y pryd. Er mwyn rhoi ychydig o brofiad i fyfyrwyr o groesholi yn y blwch tystion mewn ystafell llys, bydd yn ofynnol i chi gynnal arholiad llafar byr (5–10 munud) ar eu hadroddiadau.

*Manylion sy'n gysylltiedig â'r modiwl – gellir dod o hyd i eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safon:	20
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	7